Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**B-wbl**
**Pont Fadlen**
**Hwlffordd**
**SA61 1SZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 03/08/2015**

## Cyd-destun

Consortiwm dysgu yn y gwaith mawr yw B-wbl. Mae'r Consortiwm wedi bod yn weithredol er 2010 ac fe gaiff ei arwain gan Goleg Penfro. Mae'n cynnwys nifer o ddarparwyr dysgu yn y gwaith, sef:

- Coleg Penfro
- Coleg Sir Gâr
- PRP Training
- Coleg Ceredigion
- Track Training
- Consortiwm Hyfforddiant Tudful
- Hyfforddiant Gofal Cymru
- Y Coleg Merthyr Tudful
- Coleg Gwent
- Coleg Pen-y-bont ar Ogwr/People Business Wales
- Cyngor Sir Penfro – Gwaith yn yr arfaeth

Yn Ne Orllewin a De Ddwyrain Cymru, mae B-wbl wrthi'n cyflwyno hyfforddiant i ryw 5,000 o ddysgwyr ar hyn o bryd.

Mae'r Consortiwm yn cyflwyno'r rhaglenni dysgu yn y gwaith canlynol:

- Prentisiaethau Sylfaen (PS)
- Prentisiaethau (P)
- Prentisiaethau Uwch (PU)
- Hyfforddeiaethau
- Rhaglenni Ymgysylltu

Mae'n cynnig y llwybrau hyfforddiant yn y gwaith canlynol:

- Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal
- Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid
- Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu
- Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Manwerthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid
- Gwallt a Harddwch
- Lletygarwch ac Arlwyo
- Y Celfyddydau Perfformiadol
- Addysg a Hyfforddiant
- Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y darparwr | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r darparwr | Rhagorol |

### Perfformiad presennol

At ei gilydd, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn llwyddo i ennill eu cymwysterau yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da a rhagorol mewn rhai achosion, ar eu rhaglenni hyfforddi. Mae dysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi eu cymell yn dda ac yn ymgymryd yn llawn yn eu rhaglenni hyfforddi. Maent yn mwynhau eu dysgu ac yn mynychu'n rheolaidd.

Mae safon yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu yn dda, ac yn rhagorol mewn rhai achosion. Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid a chynorthwywyr ystafell ddosbarth ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgwyr. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i roi cymorth effeithiol mewn sesiynau a addysgir, yn enwedig i'r dysgwyr hynny ar raglenni Ymgysylltu a Hyfforddeiaeth. Mae tiwtoriaid ac aseswyr yn cymysgu gweithgareddau ymarferol a gweithgareddau yn seiliedig ar wybodaeth yn fedrus i ychwanegu at brofiad gwaith dysgwyr.

Mae gan y Consortiwm weithdrefnau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod dysgwyr yn cael gofal, cymorth ac arweiniad da. Mae trefniadau diogelu manwl ar waith sy'n cynnwys cymorth effeithiol ar gyfer holl aelodau'r Consortiwm.

Mae uwch dîm reoli arweiniol y Consortiwm wedi bod yn effeithiol iawn yn gosod cyfeiriad strategol ar gyfer cyflwyno'r contract dysgu yn y gwaith.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r Consortiwm yn rhagorol oherwydd:

- Mae safonau dysgwyr yn gwella ar draws holl bartneriaid y Consortiwm
- Mae uwch dîm rheoli darparwr arweiniol y Consortiwm yn effeithiol iawn yn arwain a chefnogi holl aelodau'r Consortiwm i gyflawni rhagoriaeth i bob dysgwr
- Mae cyfeiriad strategol y Consortiwm yn cynnwys ffocws clir ar wella deilliannau dysgwyr ar draws yr holl aelodau
- Mae'r uwch dîm rheoli wedi datblygu methodoleg ariannu arloesol i gynorthwyo dysgwyr sy'n byw neu'n gweithio mewn ardaloedd sydd â mynegai amddifadedd uchel
- Mae'r uwch dîm rheoli yn monitro'i ansawdd yn dda, gyda thîm rheoli

ymroddgar sy'n sicrhau cysondeb ar draws holl aelodau'r Consortiwm

- Mae darparwr arweiniol a bwrdd gweithredol (BG) y Consortiwm wedi datblygu ethos clir o ymddiriedaeth, didwylledd a thryloywder ar draws yr holl aelodau
- Mae'r fethodoleg ariannu a'r systemau casglu data yn sicrhau bod perfformiad holl aelodau'r Consortiwm yn cael ei fonitro'n agos
- Ceir safonau addysgu ac asesu da ar draws holl aelodau'r Consortiwm ac mae gan lawer o'r staff gymwysterau addysgu a hyfforddi ffurfiol
- Mae trefniadau partneriaeth gyda chyflogwyr o ansawdd da yn rhoi llawer o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu medrau galwedigaethol ar lefel uchel
- Mae gan y Consortiwm drefniadau partneriaeth rhagorol ar waith, gan weithio gydag ystod eang o bartneriaid, cyflogwyr a rhanddeiliaid allweddol
- Mae'r Consortiwm yn defnyddio'i adnoddau'n dda i rannu costau recriwtio, marchnata a datblygu staff

## Argymhellion

A1 Gwella ymhellach y cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu gweithgareddau dysgu, cymwysterau a fframweithiau arnynt

A2 Gwneud yn siŵr bod data ar anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei ddadansoddi ar lefel Consortiwm ac yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol i nodi tueddiadau yn anghenion cymorth dysgwyr

A3 Sicrhau bod systemau ansawdd yn cael eu hymgorffori’n llawn ar draws y Consortiwm i godi safonau ar gyfer yr holl ddysgwyr

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd arolygydd cyswllt Estyn yn monitro’r cynnydd a wneir yn erbyn yr argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio’r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn y cyfnod 2013-2014, roedd y cyfraddau y cwblhaodd dysgwyr ar raglenni prentisiaeth eu fframweithiau arnynt yr un fath â’r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer dysgu yn y gwaith, neu ychydig yn uwch. Mae data perfformiad yn dangos nad yw dysgwyr ar raglenni Prentisiaeth Sylfaen yn perfformio cystal â dysgwyr ar raglenni prentisiaeth a phrentisiaeth uwch ar y cyfan.

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau erbyn eu dyddiad targed. Fodd bynnag, mae rhai ohonynt yn cwblhau eu rhaglenni hyfforddi’n hwyr.

Mae deilliannau ar gyfer dysgwyr ar raglenni barod am waith ychydig yn is na’r Cymharydd Cenedlaethol (CC) ac mae rhywfaint o anghysondeb ymhlith aelodau ar draws y Consortiwm. Bu dros 10 pwynt canran o welliant mewn perfformiad cyffredinol o 2012-2013 i 2013-2014.

Yn y cyfnod, mae deilliannau 2013-2014 ar raglenni hyfforddeiaeth yr un fath â’r CC, neu’n debyg iddo. Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae dilyniannau cadarnhaol ar y rhaglen ymgysylltu wedi gostwng rhywfaint, tra bod dilyniannau cadarnhaol ar raglenni Lefel 1 wedi cynyddu bron i 10 pwynt canran. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth sylweddol mewn perfformiad rhwng aelodau yn y Consortiwm.

At ei gilydd, mae data heb ei gyhoeddi ar gyfer 2014-2015 yn dangos bod safonau’n cael eu cynnal, ac mewn rhai achosion, gwelwyd gwelliant ynddynt mewn rhaglenni prentisiaeth a hyfforddeiaeth.

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da ar eu rhaglenni hyfforddi, a chynnydd rhagorol mewn ychydig iawn o achosion. Gall y rhan fwyaf ohonynt ddangos a chymhwyso theori, gwybodaeth a medrau ymarferol da. Mae llawer o ddysgwyr yn integreiddio eu hyfforddiant yn y gwaith a’u hyfforddiant i ffwrdd o’r gwaith yn dda.

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi’u cymell yn dda ac yn ymgymryd yn llawn â’u rhaglenni hyfforddi. Maent yn gweithio’n dda yn annibynnol ac mewn grwpiau. Defnyddiant iaith dechnegol gyda hyder a dealltwriaeth. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymateb yn dda i gwestiynau gan eu hasesydd. Mae rhai dysgwyr yn dangos ymwybyddiaeth gyfyngedig o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Mae gwaith y rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos sillafu, atalnodi a gramadeg cywir, sy’n briodol i’w lefel. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol, trwy aseiniadau a phrosiectau sy’n berthnasol i’w rolau swydd. Fodd bynnag, nid yw rhai dysgwyr yn dangos medrau llythrennedd a rhifedd i lefelau digon uchel.

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos medrau cyfathrebu a rhyngbersonol da ac yn ymateb yn dda i gwestiynau gan aseswyr. Mae llawer o ddysgwyr wedi datblygu eu

hunan-barch a'u hyder yn dda ac yn mynegi eu safbwyntiau a'u barn yn briodol mewn trafodaethau â'u haseswyr a'u cyflogwyr.

Mae llawer o ddysgwyr yn ennill eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC) ar gyfraddau uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol ac ar lefelau sy'n briodol i'w rhaglen. Fodd bynnag, ychydig o ddysgwyr yn unig ar raglenni prentisiaeth sy'n cwblhau eu cymwysterau SHC ar lefelau sy'n uwch na'r rhai sy'n ofynnol gan eu fframweithiau.

Mewn ychydig iawn o achosion, collir cyfleoedd i integreiddio SHC a'u rhoi yn eu cyd-destun mewn asesiadau,.

Mae llawer o ddysgwyr Cymraeg mamiaith yn manteisio ar y cyfle i ddefnyddio a datblygu eu medrau iaith yn dda trwy asesiadau ac adolygiadau a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff mwyafrif o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg gyfleoedd da i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gweithle. Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio llawlyfrau sector penodol yn briodol i ddysgu termau ac ymadroddion technegol yn Gymraeg.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan yn eu dewis iaith, a gallant gyflwyno gwaith at ddibenion asesu yn Gymraeg.

**Lles: Da**

Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu canolfannau hyfforddi a'u hamgylchedd gwaith. Mae aelodau'r Consortiwm yn rhoi sylw da i iechyd a diogelwch. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n gyson yn ystod sesiynau gweithdy ac ystafell ddosbarth.

Mae pob dysgwr yn dilyn rhaglen ymsefydlu gynhwysfawr, sy'n rhoi sylw da i faterion yn ymwneud â lles. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth dda o iechyd a diogelwch ac yn deall pwysigrwydd cynnal amgylchedd gweithio diogel.

Mae llawer o ddysgwyr yn dangos gwybodaeth dda am fwyta'n iach. Er enghraifft, fe wnaeth dysgwyr mewn grŵp ymgysylltu gwaith plymer gymryd rhan mewn sesiwn gampfa wythnosol gyda thiwtor i drafod buddion diet ac ymarfer corff.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos ymddygiad da ac yn dangos parch at staff a'u cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau eu rhaglenni ac maent wedi ymrwymo a'u cymell yn dda i ymestyn eu dysgu a'u cyfranogiad.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn cystadlaethau medrau lefel uwch. Yn 2014, bu nifer o ddysgwyr ar draws y Consortiwm yn cymryd rhan mewn cystadlaethau Tîm Cymru. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y dysgwyr. Mae wedi eu helpu i godi eu dyheadau a gwella eu safonau medrau galwedigaethol. Mae'n cyfrannu'n dda at ddatblygu eu medrau cymdeithasol hefyd.

Mae gan y Consortiwm drefniadau da ar waith i gynorthwyo dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau rhag gweithio, yn enwedig y rhai sy'n dilyn hyfforddeiaethau sydd wedi ymddieithrio o addysg prif ffrwd. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn dangos hyder newydd a hunan-barch gwell.

Mae gan y Consortiwm drefniadau da ar waith ar gyfer monitro presenoldeb. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn deall pwysigrwydd mynychu'n rheolaidd ac fe gânt adborth adeiladol lle mae angen gwella presenoldeb ac nid yw'n cyrraedd safonau derbyniol.

At ei gilydd, mae llawer o ddysgwyr yn cymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb am eu dysgu; mae hyn yn arbennig o wir am y dysgwyr hynny ar y rhaglenni Prentisiaeth. Fodd bynnag, mae rhai dysgwyr yn dibynnu'n ormodol ar gymorth tiwtor ac nid ydynt yn cymryd digon o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae ymgysylltiad dysgwyr mewn prosiectau cymunedol yn dda ar y cyfan. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys: tacluso rhandiroedd; gweithgareddau glanhau traethau; gwobrau amgylcheddol; a gweithio yn y caffi elusennol cymunedol. Mae ychydig iawn o ddysgwyr sy'n astudio Prentisiaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweithio gyda chleientiaid yn y gymuned ac yn cwblhau 100 awr o brofiad gwaith cymunedol sy'n cefnogi prosiectau lleol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r Consortiwm yn cyflwyno ystod gynhwysfawr o raglenni hyfforddi sy'n bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr yn dda. Maent yn cynnig cyfleoedd dilyniant da o Hyfforddeiaethau i Brentisiaethau Uwch. Mae ffurfio'r Consortiwm wedi datblygu mwy o gyfleoedd a dewisiadau gwell o raglenni i ddysgwyr.

Mae'r Consortiwm yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o gyflogwyr, y mae pob un ohonynt yn cymryd rhan yn weithredol yn y rhaglen prentisiaeth. Er enghraifft, mae un aelod o'r Consortiwm wedi datblygu rhaglen prentisiaeth tecstilau sy'n galluogi dysgwyr i ddilyn llwybrau sy'n bodloni anghenion penodol eu cyflogwr. Mae aelodau o'r Consortiwm yn gweithio'n dda gyda chyflogwyr i gyflwyno prentisiaethau ar y cyd mewn adeiladu. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu medrau technegol mewn lleoliadau gyda gwahanol gyflogwyr.

Mae dysgwyr mewn Gwyddorau Iechyd ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweithio'n dda yn y gymuned ac yn helpu cleientiaid â Gorymdaith Flynyddol y Ddraig a medrau cadwraeth.

Mae gan y Consortiwm grŵp medrau dynodedig sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Mae'r grŵp hwn wedi datblygu o'r pwyllgor dysgu ac addysgu. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu syniadau ac arfer orau. Mae cymorth da ar waith ar gyfer dysgwyr sy'n gwella eu medrau llythrennedd a rhifedd trwy brofion diagnostig ar-lein. Mae llawer o aseswyr yn defnyddio Cynlluniau Dysgu Blynyddol (CDB) yn dda i nodi targedau priodol, y maent yn eu diweddaru bob mis. Ar draws y Consortiwm, enillodd rhai dysgwyr lefel uwch o Sgiliau Hanfodol llythrennedd a rhifedd na'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer eu fframwaith cymhwyster.

Mae polisi iaith Gymraeg y Consortiwm yn gynhwysfawr ac yn cael ei fabwysiadu gan holl aelodau'r Consortiwm. Mae hyn yn sicrhau bod pob partner yn glir ynglŷn â'r disgwyliadau i ennyn diddordeb dysgwyr a datblygu eu medrau Cymraeg a'u gwybodaeth am ddiwylliant Cymru. Mae aseswyr a thiwtoriaid yn hyrwyddo'r defnydd o ddysgu dwyieithog yn dda. Er enghraifft, mae un dysgwr wedi cael ei enwebu ar gyfer gwobr ddwyieithog y Consortiwm a noddir gan Fenter Iaith Sir

Benfro am gwblhau cryn dipyn o'u hasesiadau CGC yn Gymraeg. Mewn lleoliad meithrin, mae dysgwyr yn annog plant i ganu a chyfrif yn Gymraeg. Roedd themâu arddangosfeydd ar y waliau yn cefnogi hyrwyddo diwylliant Cymru. Ar draws y Consortiwm, mae ychydig dros 2% o ddysgwyr wedi cwblhau elfennau o'u rhaglen trwy gyfrwng y Gymraeg yn erbyn targed penodol y Consortiwm, sef 2.5%. Mae hyn yn uwch na meincnod Llywodraeth Cymru.

Mae aseswyr a thiwtoriaid yn ymgorffori ADCDF ar draws bron pob rhaglen ddysgu ac yn cysylltu testunau'n dda â sectorau galwedigaethol perthnasol. Er enghraifft, mae dysgwyr ar brentisiaethau Peirianneg yn trafod effaith tanwyddau disel yn yr amgylchedd a'r effeithiau niweidiol os na chânt eu trin yn gywir. Mae aseswyr a thiwtoriaid yn gosod ac adolygu targedau ADCDF yn effeithiol bob mis. Mae aseswyr a thiwtoriaid yn gwneud defnydd da o adnodd wedi'i ddylunio'n dda i symbylu trafodaeth am destunau fel ADCDF a Diwrnod Crefydd y Byd. Maent yn annog dysgwyr i gymryd rhan mewn cystadlaethau her amgylcheddol hefyd.

**Addysgu: Da**

At ei gilydd, mae safonau'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu yn dda, ac yn rhagorol mewn rhai achosion.

Mae gan diwtoriaid ac aseswyr wybodaeth bynciol dda, medrau galwedigaethol addas a gwybodaeth ddiwydiannol. Defnyddiant y medrau hyn yn dda i gynllunio eu sesiynau hyfforddi ac addysgu i'w gwneud yn rhyngweithiol, yn ysgogol a difyr. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid a'r staff addysgu yn defnyddio cynlluniau gwaith a chynlluniau sesiwn manwl sy'n cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd ac ADCDF.

Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid a chynorthwywyr ystafell ddosbarth ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgwyr ac maent yn eu hannog i weithio i'w llawn botensial. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i roi cymorth effeithiol mewn sesiynau a addysgir, yn enwedig ar gyfer y dysgwyr hynny ar y rhaglenni Ymgysylltu a Hyfforddeiaeth. Mae tiwtoriaid yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu a hyfforddi i ysgogi a herio dysgwyr. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid yw pob un o'r dysgwyr yn cymryd rhan yn llawn mewn sesiynau hyfforddi.

Mae tiwtoriaid yn cyfuno gweithgareddau ymarferol a gweithgareddau yn seiliedig ar wybodaeth yn fedrus i ychwanegu at brofiad gwaith dysgwyr. Mae dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda yn unigol, mewn parau ac mewn timau. Er enghraifft, mewn un sesiwn, roedd dysgwyr allan yn chwilota am berlysiau gwyllt. Fe wnaethant ddefnyddio'r perlysiau a gasglwyd i baratoi prydau bwyd. Wedyn, gwerthodd dysgwyr y prydau bwyd i staff yn y ganolfan hyfforddi.

Mae tiwtoriaid yn annog llawer o ddysgwyr i fanteisio ar y cyfle i gwblhau cymwysterau achrededig, fel hylendid bwyd ar gyfer pobl sy'n trin bwyd. Mae'r cymwysterau ychwanegol hyn yn gwella eu cyfleoedd cyflogaeth.

Mae gan diwtoriaid ac aseswyr berthynas dda iawn ag ystod eang o gyflogwyr sy'n sicrhau lleoliadau gwaith o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid a'r aseswyr yn cynnal adolygiadau cynnydd rheolaidd gyda'u dysgwyr.

Maent yn gosod targedau realistig i helpu dysgwyr i wneud cynnydd tuag at eu nod cymhwyster.

Mae aseswyr yn cynllunio tasgau asesu'n dda. Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn deall beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt a sut byddant yn cael eu hasesu. Mae bron pob dysgwr yn gwybod faint o gynnydd y maent wedi'i wneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i gwblhau eu cymhwyster. Pan fo'n briodol, mae aseswyr yn annog dysgwyr i gwblhau unedau CGC uwchlaw'r lefel sy'n ofynnol ar gyfer eu cymhwyster. Er enghraifft, roedd un dysgwr ar gwrs busnes a gweinyddu CGC lefel 2 wedi cyflawni tair uned tuag at y cwrs busnes a gweinyddu CGC lefel 3.

Mae aseswyr yn annog gwaith o safon uchel. Mae dysgwyr yn falch o'u gwaith a'r hyn y maent wedi'i gyflawni. Mae portffolios CGC yn cynnwys ystod eang o dystiolaeth o ansawdd da. Mae bron pob un o'r aseswyr yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig effeithiol ac adeiladol sy'n helpu dysgwyr i wella'u gwaith. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw aseswyr bob amser yn cywiro camgymeriadau sillafu a gramadegol yng ngwaith ysgrifenedig dysgwyr.

Mae aseswyr yn llenwi taflenni olrhain unigol i wneud yn siŵr bod dysgwyr ar y trywydd iawn i gyflawni. Mae aelodau'r Consortiwm wedi dechrau cyflwyno system e-olrhain i bob asesydd ei defnyddio. Bydd hyn yn golygu bod modd olrhain a monitro cynnydd dysgwyr yn ganolog. Mae staff sy'n aelodau o'r Consortiwm yn mynychu cyfarfodydd safoni rheolaidd i sicrhau dull cyson a rhannu arfer dda ar draws y Consortiwm.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

At ei gilydd, mae gan y Consortiwm weithdrefnau cynhwysfawr ar waith ac mae'n rhoi gofal, cymorth ac arweiniad da i ddysgwyr. Mae'r Consortiwm yn teilwra strategaethau lles yn effeithiol i fodloni anghenion unigol; caiff hyn effaith gadarnhaol ar gymhelliant, presenoldeb a lles llawer o ddysgwyr. Mae holl aelodau'r Consortiwm yn manteisio'n dda ar gyfleusterau cymorth ac yn eu rhannu'n dda er budd y dysgwr. Pan na all aelod o'r Consortiwm fodloni angen cymorth penodol, gall gael cymorth gwerthfawr gan y Consortiwm ehangach.

Mae gan y Consortiwm ystod o systemau effeithiol i fonitro presenoldeb ac mae'n rhoi adborth da ar faterion trwy adolygiadau cynnydd dysgwyr.

Mae gan y Consortiwm weithdrefnau iechyd a lles systematig. Mae aelodau'r Consortiwm yn cyfarfod fel grŵp i adolygu'r gweithdrefnau hyn a rhannu arfer orau. Mae'r Consortiwm wedi datblygu calendr buddiol ar gyfer bwyta'n iach ac mae'n cynnal archwiliadau thematig rheolaidd trwy gydol y flwyddyn. Ymdrinnir yn dda â bwyta'n iach a ffordd o fyw yn ystod y cyfnod ymsefydlu.

Mae gan y Consortiwm bolisïau priodol ar waith yn ymwneud â bwlio ac aflonyddwch. Mae'r polisïau hyn wedi cael eu mabwysiadu gan holl aelodau'r Consortiwm ac fe gânt eu hyrwyddo'n dda. Mae'r dull cyson hwn yn helpu dysgwyr i deimlo'n ddiogel yn eu gwaith a'u hamgylcheddau dysgu.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad o ansawdd da ar ddechrau eu hyfforddiant a gallant fanteisio ar wasanaethau cyngor arbenigol trwy gydol eu hyfforddiant. Mae dysgwyr yn elwa ar drefniadau partneriaeth effeithiol a sefydledig y Consortiwm gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau cymorth. Mae'r Consortiwm yn cynnal cyfarfodydd cydymffurfio rheolaidd gyda holl aelodau'r Consortiwm.

Mae gan y Consortiwm drefniadau diogelu cynhwysfawr a manwl, a rhoddir cymorth i holl aelodau'r Consortiwm, wedi'i hyrwyddo gan gyfarfodydd rheolaidd yr aelodau. Mae'r Consortiwm yn adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau diogelu yn effeithiol bob blwyddyn ac yn anfon adroddiad i'r Bwrdd yn rheolaidd. Mae diogelu yn rhan arwyddocaol a rheolaidd o adolygiadau dysgwyr, sy'n cael eu monitro gan aelodau'r Consortiwm. Mae'r Consortiwm yn cynnal cynhadledd ddiogelu ar gyfer aelodau, ac mae nifer dda yn ei mynychu.

Caiff pob dysgwr becyn defnyddiol sy'n cynnwys manylion am unigolion cyswllt ar gyfer diogelu. Mae unigolyn diogelu dynodedig wedi cael ei neilltuo ar gyfer pob aelod o'r Consortiwm. Mae pob dysgwr yn gwybod at bwy i fynd os bydd problemau. Caiff holl staff y Consortiwm wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac fe gânt hyfforddiant diogelu.

Wrth iddynt gychwyn, caiff dysgwyr asesiad cychwynnol trylwyr i nodi eu hanghenion llythrennedd a rhifedd. Mae gan y Consortiwm systemau a gweithdrefnau da i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae aelodau'r Consortiwm yn cyflenwi data yn rheolaidd mewn perthynas â'r cymorth y maent yn ei roi i ddysgwyr. Mae'r Consortiwm wrthi'n datblygu system drosfwaol ar gyfer dadansoddi a defnyddio data sy'n deillio o ymyriadau cyfredol, er mwyn gallu monitro a chefnogi patrymau a thueddiadau, ond nid yw'r system wedi cael ei hymgorffori'n llawn. Mae holl aelodau'r Consortiwm yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd lle maent yn cydgyfrannu a rhannu syniadau.

Mae tiwtoriaid ac aseswyr sy'n cyflwyno rhaglenni hyfforddeiaeth yn darparu cymorth un i un a chymorth grŵp parhaus ar gyfer dysgwyr. Mae hyn yn rhoi hyder i ddysgwyr gydnabod a derbyn cymorth pan fydd ei angen arnynt.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae gan y Consortiwm ddiwylliant agored, gonest a chynhwysol sy'n cael ei ymgorffori yn ei werthoedd a'i ethos. Mae'n cymhwyso dull cynhwysol, teg a chyfartal ar gyfer yr holl ddysgwyr a'r staff. Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi medrau a rhagolygon dysgwyr. Mae aelodau'r Consortiwm yn sicrhau nad yw dysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd â rhwystrau ac anableddau personol, yn cael eu rhoi dan anfantais. Mae aelodau'r Consortiwm yn adolygu ei bolisi trosfwaol yn effeithiol trwy amrywiaeth o gyfarfodydd. Mae Arweinydd y Consortiwm yn monitro cydymffurfiad ei aelodau ar gylch tair blynedd, sy'n arwain at gynllun gweithredu cydraddoldeb blynyddol. Mae Arweinydd y Consortiwm yn annog aelodau'r Consortiwm i ddangos ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae aelodau'r Consortiwm yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda. Maent yn ymgorffori cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gyson mewn prosesau ymsefydlu, hyfforddi, asesu ac adolygu. Mae gan bron bob dysgwr ddealltwriaeth dda o wahaniaethu ac maent yn deall sut i roi gwybod am unrhyw broblemau. Mae bron

pob un o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i'w helpu i gynorthwyo dysgwyr.

Mae'r Consortiwm wedi bod yn effeithiol yn sicrhau hyfforddiant ar gyfer dysgwyr mewn meysydd dysgu nad ydynt yn rhai traddodiadol, er enghraifft rhagfarn o ran rhywedd mewn meysydd dysgu sector lle ceir dynion yn bennaf, gan gynnwys adeiladu a pheirianneg. Mae gweithgareddau'n cynnwys trafodaethau gyda dosbarth o ddynion ar achosion posibl o fwlio ac aflonyddwch yn y gweithle o ran cyflogeion sy'n fenywod, lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Mae gan aelodau'r Consortiwm fodelau rôl rhagorol mewn meysydd nad ydynt yn rhai traddodiadol, sy'n gwella ymgysylltu â menywod yn y meysydd dysgu hyn. Mae enghreifftiau'n cynnwys cyflogi tiwtor weldio sy'n fenyw, a chael menywod yn cyrraedd y rownd derfynol mewn cystadlaethau medrau weldio.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gan aelodau'r Consortiwm weithleoedd a chyfleusterau hyfforddi rhagorol a gynhelir yn dda sy'n ffafriol ar gyfer dysgu. Mae'r rhan fwyaf o offer ac adnoddau'n gyfoes ar draws yr holl ddarpariaeth. Er enghraifft, mae rhai o aelodau'r Consortiwm wedi datblygu gweithdai peirianneg safon diwydiant i fodloni anghenion cyflogwyr. Mae un aelod yn defnyddio efelychydd purfa olew hynod arbenigol sy'n galluogi dysgwyr i brofi ac ennill medrau mewn gweithdrefnau argyfwng gweithrediadau proses. Mae aelod arall yn caniatáu i ddysgwyr ddefnyddio meddalwedd sy'n benodol i ddiwydiant i gynhyrchu tecstilau.

Mae waliau ystafelloedd dosbarth ac ystafelloedd hyfforddi yn cynnwys posteri a byrddau gwybodaeth dwyieithog, ac maent yn cynnwys arddangosfeydd da sy'n gysylltiedig â datblygu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r arddangosfeydd hyn yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol a bywiog. Mae'r Consortiwm yn defnyddio ystod briodol o adnoddau i gefnogi addysgu ac asesu.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Ers diwygio'i aelodaeth yn 2012 a'i dwf pellach yn 2015, mae'r Consortiwm wedi gwneud cynnydd sylweddol. Mae Arweinydd y Consortiwm yn effeithiol iawn yn gwneud yn siŵr bod cydraddoldeb rhwng aelodau. Mae uwch reolwyr Arweinydd y Consortiwm wedi bod yn effeithiol iawn yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer cyflwyno'u contract dysgu yn y gwaith. Mae cyfeiriad strategol y Consortiwm yn cynnwys ffocws clir ar wella deilliannau dysgwyr ar draws yr holl aelodau. Mae holl aelodau'r Consortiwm yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac maent wedi datblygu ethos clir o ymddiriedaeth a didwylledd. Mae darparwr Arweinydd y Consortiwm, ynghyd â'r Bwrdd Gweithredol, wedi sefydlu diwylliant clir o gydweithio, cymorth a thryloywder ar draws yr holl aelodau. Mae hyn wedi arwain at ethos ar y cyd o welliant parhaus a gweledigaeth glir i gyflawni rhagoriaeth.

Mae'r Consortiwm wedi sefydlu strwythur rheoli clir i gynorthwyo holl aelodau'r Consortiwm i wella'u perfformiad. Mae gan reolwyr ar bob lefel rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir. Mae ganddynt ffocws clir ar gydweithio effeithiol a gwella safonau dysgwyr ar draws holl aelodau'r Consortiwm. Maent wedi sefydlu grwpiau,

fel y grŵp perfformiad a deilliannau a'r grŵp dysgu ac addysgu, i wella safonau a chysondeb ar draws holl aelodau'r Consortiwm.

Mae'r Consortiwm wedi sefydlu strwythur ffioedd rheoli cynhwysfawr sy'n cyd-fynd yn agos â pherfformiad yr aelod a lefel y cymorth sydd ei angen i sicrhau gwelliant. Mae'r lefel fwyaf o gymorth sydd ei hangen yn golygu bod canran uwch o'u gwerth contract yn cael ei thalu. Mae'r aelodau hyn yn cael ystod eang o gymorth sy'n eu galluogi i wella'u perfformiad. Yr aelodau sydd â hanes o berfformio'n dda ac sydd angen ychydig iawn o gymorth, os o gwbl, sy'n talu'r ffi reoli isaf.

Yn ddiweddar, mae'r Consortiwm wedi datblygu ac yn cyflwyno methodoleg ariannu arloesol i gynorthwyo dysgwyr sy'n byw neu'n gweithio mewn ardaloedd sydd â mynegai amddifadedd uchel. Mae pob aelod yn talu'r un ganran o werth eu contract mewn cronfa ganolog. Mae'r Consortiwm yn ailddyrannu arian o'r gronfa hon i aelodau sy'n gweithio mewn ardaloedd difreintiedig i gynorthwyo dysgwyr i gyflawni eu fframweithiau prentisiaeth a hyfforddiant arall.

Mae'r Consortiwm yn dangos ymrwymiad cryf i wella safonau a pherfformiad dysgwyr. Bu gwelliant amlwg mewn gweithdrefnau ac arferion rheoli ar draws y Consortiwm. Mae hyn wedi arwain at duedd o wella yn y cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau hyfforddi a chymwysterau eraill.

Mae'r Consortiwm wedi cryfhau ei systemau ar gyfer casglu data mewn perthynas â pherfformiad dysgwyr. Mae wedi gwneud buddsoddiad ariannol sylweddol mewn prynu meddalwedd sydd bellach yn cael ei defnyddio gan bob un o'r aelodau. Mae'r Consortiwm yn casglu ystod eang o ddata yn rheolaidd ac mae ganddo ddealltwriaeth glir o ba mor dda y mae pob aelod yn perfformio. Caiff gwybodaeth ei rhannu'n rheolaidd ar draws y Consortiwm ac fe gaiff tanberfformio ei herio'n effeithiol a thrylwyr.

Ceir cyfathrebu da ar draws holl aelodau'r Consortiwm. Mae'r Consortiwm yn cynnal ystod gynhwysfawr o gyfarfodydd rheolaidd sy'n effeithiol o ran rhannu amrywiaeth eang o wybodaeth ar draws aelodau. Defnyddir y cyfarfodydd hyn yn dda i rannu gwybodaeth am berfformiad dysgwyr, i nodi arfer dda a chyfleu ystod gynhwysfawr o wybodaeth i'r holl aelodau.

Mae'r Consortiwm wedi ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n parhau i gyfrannu at ystod eang o fentrau Llywodraeth Cymru. Ar draws y Consortiwm, mae rheolwyr a staff yn cymryd rhan mewn cyrff lleol a chenedlaethol sy'n cynnwys y rhwydweithiau 14-19 a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (FfHCC).

**Gwella ansawdd: Da**

Mae Arweinydd y Consortiwm yn monitro'i ansawdd yn dda, gyda thîm rheoli dynodedig sy'n gyfrifol am sicrhau cysondeb ar draws holl aelodau'r Consortiwm. Mae'r tîm ansawdd yn cynorthwyo aelodau newydd y Consortiwm yn effeithiol i weddu eu proffil ansawdd â phroffil ansawdd aelodau eraill o fewn y Consortiwm. Mae'r pwyllgor gwella ansawdd (PGA), sy'n adrodd i'r bwrdd gweithredol (BG), yn cyfarfod bob deufis i fonitro perfformiad a deilliannau holl aelodau'r Consortiwm a gwneud argymhellion ar gyfer gwella pan fydd angen. Caiff dyraniad contractau yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol ei adolygu'n rheolaidd, ac mae'r tîm

ansawdd yn rhoi cymorth i wella meysydd sy'n tanberfformio, gan weithio gydag aelodau'r Consortiwm i osod camau gweithredu ar gyfer gwella a chyflwyno hyfforddiant staff.

Ers dechrau 2014, mae'r PGA wedi sefydlu nifer o grwpiau gorchwyl a gorffen mewn meysydd sy'n tanberfformio. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o holl aelodau'r Consortiwm yn y maes sector, ac maent yn cyfarfod i rannu arfer dda a sicrhau cysondeb yr holl gymwysterau a gynigir. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith yr holl grwpiau o ran codi safonau ym mhob maes.

Mae aelodau'r Consortiwm yn cyflwyno eu hadroddiad hunanasesu (AHA) a'u cynllun datblygu ansawdd (CDA) i'w cymeradwyo gan dîm ansawdd Arweinydd y Consortiwm. Mae'r tîm ansawdd yn defnyddio'r dogfennau hyn yn dda i ddatblygu AHA a CDA y Consortiwm ei hun. Mae AHA y Consortiwm yn glir ac arfarnol, mae'n defnyddio tystiolaeth yn effeithiol, ac yn llywio'r CDA yn dda. Mae'r tîm ansawdd yn monitro'r holl gynlluniau gweithredu bob chwarter, ac adroddiadau cynnydd i'r PGA a'r BG.

Mae holl aelodau'r Consortiwm yn defnyddio eu proses arsylwi sesiynau eu hunain, sy'n bodloni'r safonau gofynnol a osodwyd gan dîm ansawdd Arweinydd y Consortiwm. Mae'r tîm ansawdd yn olrhain deilliannau'r arsylwadau hyn yn ganolog. Caiff arsylwadau eu safoni gan reolwr ansawdd y Consortiwm, sy'n cynnal proses samplu a safoni drylwyr, gan gynnwys arsylwi a safoni barnau ar y cyd. Mae dadansoddiad manwl o'r holl arsylwadau yn nodi meysydd allweddol ar gyfer rhannu arfer dda a chyfleoedd i ddatblygu ymhellach. Mae'r tîm ansawdd a'r tîm addysgu a dysgu yn defnyddio'r rhain yn effeithiol wrth gynllunio digwyddiadau hyfforddi staff ar draws y Consortiwm.

Mae gan y Consortiwm brosesau da ar gyfer gwrando ar ddysgwyr a chyflogwyr. Mae wedi gwneud defnydd da o arolwg llais y dysgwr (LlD), lle bu gwelliant sylweddol yn ymatebion dysgwyr o'r flwyddyn flaenorol ac mae'r Consortiwm yr un fath â'r cyfartaledd cenedlaethol, neu'n uwch, ym mwyafrif y meysydd erbyn hyn. Mae'r Consortiwm yn defnyddio'r trafodaethau adolygu rhwng dysgwyr, aseswyr a chyflogwyr yn dda i wrando ar safbwyntiau dysgwyr a chyflogwyr. Mae'r Consortiwm yn adrodd am ddeilliannau gweithgareddau llais y dysgwr trwy ddefnyddio posteri 'dywedoch chi, gwnaethon ni', cylchlythyrau a gohebiaeth ar-lein.

### Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol

At ei gilydd, mae gan y Consortiwm drefniadau partneriaeth rhagorol a hynod effeithiol ar waith, yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid, cyflogwyr a rhanddeiliaid allweddol.

Mae partneriaid y Consortiwm yn cadw eu hunaniaeth eu hunain o fewn brand B-wbl. Caiff aelodau newydd o'r Consortiwm eu sefydlu'n effeithiol i sicrhau eu bod yn cael eu hintegreiddio'n llawn yn y Consortiwm. Mae arweinwyr yn cyfarfod yn rheolaidd fel BG i adolygu a monitro agweddau pwysig ar ddarpariaeth, deilliannau a pherfformiad yn strategol.

Mae lefelau uchel o barch a pherthnasoedd gweithio agos yn bodoli rhwng partneriaid. Mae amrywiaeth o grwpiau gorchwyl a gorffen yn gosod meincnodau heriol, yn ffurfio strategaethau ac yn datblygu adnoddau ar gyfer meysydd darpariaeth pwysig, fel dwyieithrwydd, llythrennedd, rhifedd, cydraddoldeb ac

amrywiaeth. Cynhaliwyd cynhadledd ar draws y Consortiwm ar gyfer hyn. Mae'r fforwm hwn yn cefnogi datblygiad staff yn dda hefyd.

Mae gan y Consortiwm berthnasoedd gweithio rhagorol a hynod fuddiol gydag asiantaethau lleol, er enghraifft sefydliadau gwirfoddol, Gyrfa Cymru, y Ganolfan Byd Gwaith, Cymunedau yn Gyntaf, awdurdodau lleol, cyflogwyr a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae aelodau'r Consortiwm yn gweithio'n dda gyda Rhwydweithiau Ardaloedd Dysgu 14-19. Mae rhaglen gynlluniedig o ddigwyddiadau ar waith i annog hyrwyddo cyfleoedd Hyfforddeiaeth a Phrentisiaeth mewn ysgolion.

Cynrychiolir y Consortiwm ar Fwrdd Dinas-ranbarth Bae Abertawe a Bwrdd Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau. Mae hyn wedi dylanwadu ar newid eang yn y cwricwlwm i gefnogi'r economi leol a gwella cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer dysgwyr.

Caiff aelodau eu cynrychioli ar grwpiau cenedlaethol, er enghraifft y grŵp gweithredu ar gyfer yr Adolygiad o Gymwysterau.

Caiff anghenion cyflogwyr eu bodloni'n eithriadol o dda. Mae'r Consortiwm yn rhoi cefnogaeth eang i recriwtio prentisiaid ar gyfer sefydliadau ac mae'n gweithio gyda chyflogwyr yn dda iawn i olrhain cynnydd dysgwyr unigol. Mae cynllun prentisiaeth ar y cyd arloesol ac ansawdd uchel yn gweithio'n dda ar gyfer Peirianneg ac Adeiladu. Mae gan y darparwr bartneriaethau gweithio da iawn gydag ystod eang o gyflogwyr lleol a chenedlaethol sy'n darparu cyfleoedd profiad gwaith i ddysgwyr ddatblygu eu medrau ymarferol a gwella cyfleoedd cyflogadwyedd.

Yn y mwyafrif o achosion, ceir perthnasoedd llwyddiannus iawn gyda chyflogwyr. Er enghraifft, mae'r darparwr yn gweithio gyda sefydliad telathrebu masnachol ar gyfer prentisiaethau Canolfan Alwadau Lefel 2. Mae'r darparwr a'r cyflogwr yn gweithio'n agos i sicrhau bod y rhaglen yn bodloni anghenion y dysgwyr a'r cyflogwyr. Mae cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus yn arwain at benodiad amser llawn.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

At ei gilydd, mae'r Consortiwm a'i aelodau yn rheoli staff ac adnoddau yn effeithlon ac yn eithriadol o dda. Mae'r Consortiwm yn cyflogi nifer sylweddol o staff sydd â chymwysterau addas i gyflwyno'r ystod eang o raglenni hyfforddi a gynigir gan bartneriaid. Mae gan lawer o staff gymwysterau addysgu, hyfforddi a sicrhau ansawdd ffurfiol.

Mae aelodau'r Consortiwm yn gwneud defnydd rhagorol o arolygon medrau ac adolygiadau perfformiad blynyddol i nodi blaenoriaethau datblygu staff. Caiff arfer dda ei rhannu ar draws holl aelodau'r consortiwm, mewn ystod eang o weithgareddau sy'n cynnwys ADCDF, yr iaith Gymraeg a'i diwylliant, llythrennedd a rhifedd, addysgu a dysgu a lles. Mae aelodau'r Consortiwm yn gwneud defnydd effeithiol iawn o gynlluniau gweithredu datblygiad staff i ymgorffori arfer dda a rhagorol mewn addysgu a dysgu.

Mae aelodau'r Consortiwm yn defnyddio'i adnoddau yn effeithiol i rannu costau recriwtio, marchnata a datblygu staff ac maent wedi blaenoriaethu buddsoddiad mewn system gwybodaeth reoli a datrysiad eBortffolio ar y cyd i'r Consortiwm. Yn ddiweddar, mae bwrdd y Consortiwm wedi cymeradwyo cronfa ariannol wrth gefn

arloesol, a fydd yn galluogi dysgwyr o ardaloedd difreintiedig i wneud cais am gymorth i gwblhau eu rhaglen ddysgu.

Mae Arweinydd y Consortiwm yn gwneud defnydd effeithiol iawn o fodel dyrannu cyllid, sy'n arwain y sector, i gymell aelodau i wella deilliannau. Mae bwrdd y Consortiwm yn dyrannu cyllid ychwanegol i aelodau sydd â deilliannau da ac yn cynorthwyo aelodau sy'n tanberfformio i wella. Er enghraifft, o Fawrth 2014, dyfarnwyd cyllid ychwanegol i ddau aelod, a rhoddwyd cymorth ychwanegol i un aelod i'w helpu i wella.

Mae'r Consortiwm yn defnyddio cynlluniau'r cwricwlwm i gytuno ar dargedau cyllid aseswyr, sy'n briodol ac yn ystyried gofynion y rhaglen, yr aelod a'r cyflogwr. Mae bwrdd y Consortiwm yn monitro deilliannau ariannol ac ansawdd yn effeithiol, gan sicrhau bod targedau cyllid ac ansawdd yn cael eu cyflawni.

Mae bron pob dysgwr yn elwa ar safonau da o adnoddau amgylchedd ac adnoddau addysgu a dysgu. Mae gan aelodau'r Consortiwm strategaethau ystâd diffiniedig i ymestyn a gwella adeiladau ac adnoddau.

At ei gilydd, mae'r safonau a'r cyfraddau y mae dysgwyr yn ennill cymwysterau arnynt uwchlaw'r meincnod, yn gwella, ac yn dda yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'r Consortiwm yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Rydym yn defnyddio deilliannau arolwg Llais y Dysgwr Llywodraeth Cymru i lywio ein holl arolygiadau o addysg a hyfforddiant ôl-16. Arolwg boddhad dysgwyr yw Llais y Dysgwr, sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru rhwng Ionawr a Chwefror bob blwyddyn.

Mae'r arolwg yn gofyn ystod o gwestiynau am y themâu canlynol i ddysgwyr:

- y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a roddir iddynt
- ymatebolrwydd darparwyr, yr amgylchedd dysgu a lles myfyrwyr
- ansawdd yr addysgu a'r hyfforddi
- boddhad cyffredinol

Mae pob thema'n cynnwys ystod o gwestiynau sy'n gofyn i ddysgwyr raddio perfformiad eu darparwr. Mae 28 cwestiwn i gyd.

Fe wnaeth mil naw cant a thri deg pump o ddysgwyr gwblhau'r arolwg. Mae hyn bron i ddau o bob tri o boblogaeth dysgwyr y Consortiwm.

Fe wnaeth wyth deg naw y cant o ymatebwyr raddio'r Consortiwm yn dda neu'n dda iawn ar y cyfan. Dywedodd naw deg y cant o ymatebwyr fod eu rhaglen hyfforddi cystal â'r disgwyl, neu'n well. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd y sector.

Cyflawnodd y darparwr sgorau uwch na chyfartaledd y sector ym mhob un o bum thema'r arolwg.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Sandra Barnard | Arolygydd Cofnodol |
| Stephen Davies | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| Vanessa Morgan | Arolygydd Tîm |
| Sally Stringer | Arolygydd Tîm |
| Grant Santos | Arolygydd Cymheiriaid |
| James Nelson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lesley Rasmussen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Elizabeth Anne Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Emma Choat | Arolygydd Cymheiriaid |
| Barry Walters | Enwebai |